CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU
PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU

DYDDIAD 1 RHAGFYR 2021

PWNC

ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cymeradwyo diweddariad i'r:

- **Polisi Buddsoddi Cyfrifol**
- **Polisi Hyfforddiant**

RHESYMAU:

Cymeradwywyd fersiynau cyfredol y Polisi Buddsoddi Cyfrifol a'r Polisi Hyfforddiant gan y Cydbwyllgor ym mis Rhagfyr 2020. Mae adolygiad blynyddol o'r polisïau hyn wedi cael ei gynnal ac mae angen i'r CBLl gymeradwyo'r polisïau sydd wedi'u diweddaru.

Awdur yr Adroddiad: **Chris Moore**	**Swydd:** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Gâr**	**Rhif Ffôn: 01267 224160** **E-bost:CMoore@carmarthenshire.gov.uk**

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 1 RHAGFYR 2021

ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) wedi cymeradwyo sawl polisi / cynllun gaiff eu hadolygu yn flynyddol. Y chwarter hwn, mae'r GS wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol (BC) a'r Polisi Hyfforddiant.

Cafodd y Polisi Buddsoddi Cyfrifol (BC) ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cydbwyllgor ym mis Medi 2019 ac fe gafodd ei adolygu a'i ddiweddaru ym mis Rhagfyr 2020. Yn dilyn adolygiad eleni, mae'r polisi wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu newid enw'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) i'r Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau (DLUHC). Mae'r polisi wedi cael ei ddiweddaru hefyd i adlewyrchu'r gwaith sydd wedi'i gyflawni o ran monitro metrigau (pwynt 9.1) a Chod Stiwardiaeth y DU (pwynt 10.2), yn ogystal â chynnwys ymrwymiad PPC o ran fframwaith y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n ymwneud ag Hinsawdd (TCFD) (pwynt 9.2).

Cymeradwywyd y Polisi Hyfforddiant gan y CBLl ym mis Rhagfyr 2020 ac mae'n amlinellu ymagwedd y PPC at hyfforddiant a'r gofynion. Yn unol â'r Polisi BC, mae'r polisi hwn hefyd wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newid yn enw MHCLG. Yn dilyn adolygiad blynyddol cyntaf y polisi hwn, mae cyfnod ei adolygiad ffurfiol wedi cael ei newid i ddwywaith y flwyddyn, mae geiriad y polisi (pwynt 5) wedi cael ei addasu yn unol â hynny.

Os yw'r polisïau yn cael eu cymeradwyo, byddant yn cael eu diweddaru ar wefan y Bartneriaeth.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	YDY

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb **OES**	Cyfreithiol **DIM**	Cyllid **DIM**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**
Polisi Mae'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol a'r Polisi Hyfforddiant yn ddogfennau ffurfiol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn: MANYLIR AR Y RHAIN ISOD		
Teitl y Ddogfen	**Cyfeirnod Ffeil**	**Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN**